

Pris: 50c

Papur Pawb

Tachwedd 2022 Rhif 483



Dathlu Calan Gaeaf – tud 3 a 8

tud 4/5

Ysgol Tal-y-bont

tud 9

Yn Naturiol

tud 10

Dod i Nabod...

tud 12

Chwaraeon

Eich ci... eich cyfrifoldeb

Yn anffodus mae baw cŵn yn gonsyrn cynyddol mewn sawl cymuned.

Mae baw cŵn yn fochaid ac yn medru creu problemau iechyd - yn enwedig mewn plant.

Gyda chynnydd erbyn hyn yn y nifer o bobl sydd yn cadw cŵn mae 'na lawer iawn mwy o faw cŵn o gwmpas y pentref. Tra bod y mwyafrif llethol sy'n cadw cŵn yn lleol yn clirio ar ôl ei ffrind gorau mae 'na leiafrif sydd ddim.

Mewn ymateb i'r sefyllfa a phryderon sydd wedi codi gan breswylwyr lleol, mae Catrin M S Davies, cynghorydd sir Ceulan a Maesmawr, wedi trefnu bod deunyddiau ymgyrch **Eich Ci Eich Cyfrifoldeb** wedi eu gosod mewn mannau amlwg o amgylch pentre' Tal-y-bont, yn enwedig lle mae bobl yn cerdded eu cŵn.

Bwriad **Eich Ci Eich Cyfrifoldeb** yw codi ymwybyddiaeth gyffredinol o'r broblem a'r disgwyliad bod pobl yn glanhau ar ôl eu cŵn, ac annog pob perchennog ci i wneud y peth cywir, cyfreithiol a chyfrifol.

Meddai Catrin "Rydyn ni gyd yn gwerthfawrogi bod y rhelyw o berchnogion cŵn yn gwneud y peth iawn a diolch iddyn nhw am fod yn gyfrifol a chymdeithasol. Mae'n drueni bod yna leiafrif sydd ddim bob amser yn gwneud eu rhan ac felly yn golygu bod gyda ni lwybrau a phalmentydd brwnt a mae pob un o ni wedi cyrraedd adre a sylweddoli bod baw ci ar ein hesgidiau! Mae sawl un wedi dweud wrthai bod nhw wedi dod allan o'i cartre i ffeindio baw ci reit o flaen ei drws. Does dim esgus am y peth! Dyna neges **Eich Ci Eich Cyfrifoldeb**. Mae'r deunyddiau, stensiliau ar y ffordd ac arwyddion ar bolion o gwmpas y pentref, yn drawiadol iawn ac yn bendant yn creu argraff! Yr oll sydd ei angen nawr yw bod pobol yn dilyn y cyfarwyddiadau."

Mae yna sawl bin sbwriel, pob un yn derbyn baw cŵn mewn bagiau, wedi eu lleoli mewn mannau cyfleus o amgylch y pentre a felly does dim esgus. Mae yna rai arwyr lleol hyd yn oed yn darparu bagiau baw cŵn am ddim. Ac ambell un hyd yn oed yn codi baw cŵn pobol eraill!

Mae yn hollol bosib a syml i wneud y peth iawn! Felly pam nad yw pob un yn gwneud? Pam ddim bod yn gyfrifol a bod yn barchus o'ch cymdogion?

Mae menter **Eich Ci Eich Cyfrifoldeb** yn rhan o **Caru Ceredigion**. Egwyddor sylfaenol **Caru Ceredigion** yw bod pawb yn medru chwarae



Catrin M S Davies, cynghorydd sir Ceulan a Maesmawr

ei ran yn ein cymunedau a bod yn gyfrifol ac yn gymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys pethau hawdd iawn fel:

- glanhau ar ôl eu cŵn
 - peidio â gollwng 'sbwriel
 - rheoli gwastraff
 - parcio'n bositif
- yn ogystal â dathlu ein hardal a bod yn ddiolchgar amdani.

Am ragor o wybodaeth am Caru Ceredigion ymwelwch:
<http://www.ceredigion.gov.uk/preswylwyr/caru-ceredigion/>

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:

Gwyn Jenkins
(01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com

Tynnu lluniau:

Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL

Tal-y-bont:

Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
832592

Parsel Henllys:

Rhys Huws, Llyn Onn
832076

Bont-goch:

Cathryn Lloyd-Williams
cat_yfoel@hotmail.com

Llangynfelyn:

Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
832573

Eglwys-fach/Ffwrnais:

Non Griffiths
(01654) 781264

Rhwydweithiau cymdeithasol:

Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cadeirydd:

Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
832697

Is-gadeirydd:

Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
832773

Ysgrifennydd:

Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
832344

Trysorydd:

Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
832093

Tanysgriadau:

Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
832448

Hysbysebion:

Trish Huws, Llyn-Onn, Tal-y-bont

Dylunio:

Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

Plygu'r Papur:

Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins

Dosbarthwyr:

Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon;
John Evans; Innes Heron

Cyhoeddwyd gan

Gymdeithas Papur Pawb.

Ariennir yn rhannol gan

Lywodraeth Cymru.

CYMRAG

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...

www.papurpawb.cymru

hefyd dilynwch ni ar drydar a gwpeylfr (@papurpawb)

Golygyddion

Golygwyd y rhifyn hwn gan
Helen a Ceri gyda Ceri'n
dylunio. Diolch iddynt.

Rhian

(rhian.evans@tiscali.co.uk)

a Catrin

(catrinssj@gmail.com)

fydd yn golygu rhifyn Rhagfyr.

Y dyddiad cau yw

2 Rhagfyr a bydd y papur ar
werth ar 9 Rhagfyr.



**“Toriadau trydan, pawb ar streic - mae'n
gwneud i mi deimlo'n ifanc eto!”**

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol i'r Cyngor

Swydd rhan-amser (8 awr yr wythnos)

A oes gennych chi sgiliau cyfrifiadurol a chyllidol ac yn weinyddwr da?
Ydych chi'n gallu cyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg? Hoffech chi
swydd ddiffr a diddorol?

Os ydych wedi rhoi atebion cadarnhaol, beth am i chi gysylltu ag
Ellen ap Gwynn am ragor o wybodaeth, a swydd-ddisgrifiad:
Cadeiryddcmm@gmx.com

Dyddiad Cau: 16 Rhagfyr 2022

Y LLEW GWYN Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £9.95 Dau gwsr £11.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Garej Davmor

Petrol, Diesel, MOT, Gwasanaethau a Thrwsio
Bwyd poeth ac oer ar gael. Siop gyfleustra drwyddedig

Ebost: davmorgarage@hotmail.com

Ffôn: 01970 832278



Dewch o hyd i ni ar **f** @Garej Davmor

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch
sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys
Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng
niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Dyddiadur

TACHWEDD

- 13 **Bethel** 10 Richard Lewis
10.45 Gwasanaeth Sul y Cofio
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30
Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 2.15 Sul y Cofio
- 14 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r**
Cylch 'Cymru Ddoe mewn Lliw
a Llun' (Gwyn Jenkins)
- 17 **Eglwys Llangynfelyn yn**
Llanfach 7 Gweddi Hwyrrol
Bingo 7.30 Wildfowler
- 19 **'Dal ati'** 10.30 Cletwr
- 20 **Bethel** 10 Gwilym Tudur (C)
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30
- 25 **Sesiwn Nos Wener** Llew Gwyn,
Tal-y-bont Twm Morus a
Gwyneth Glyn am 8 o'r gloch.
- 25 **Cwis** 8 Wildfowler
- 26 **Ffair Nadolig** Neuadd Goffa
Tal-y-bont
- 27 **Bethel** 10 Geraint Evans
Rehoboth 10 Gweinidog
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30

RHAGFYR

- 1 **Bingo** 7.30 Wildfowler
- 2 **Ffair Grefftau Nadolig** 3-7
Cletwr
- 3 **'Dal ati'** 10.30 Cletwr
- 4 **Bethel** 10 Uno â Seion (Zoom)
Rehoboth 2 Gweinidog
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30
Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 2.15 Cymun
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30
Cymun Bendigaid
- 9 **Cwis** 8 Wildfowler
- 11 **Bethel** 10 Gwilym Tudur (C)
Bethel 6 Gwasanaeth Nadolig
Merched y Wawr
Rehoboth 2 Judith Morris
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30
- 18 **Sioe Tal-y-bont:** Gyrfa Chwist
Dofednod 8.00 Neuadd Goffa

Cletwr Dydd Mawrth 1-4
'Clonc a Gweu'

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553





Pobl a Phethe

Prescriptions

Fferyllfa Tal-y-bont ar y brig

Cafodd Fferyllfa Tal-y-bont lwyddiant yng Ngwobrau Fferylliaeth Annibynnol Llundain yn ddiweddar. Derbyniodd Cerian Screen yr ail wobwr ar ran y fferyllfa am ei gwasanaeth ardderchog i'r gymuned. Yn wir mae'r gwasanaethau oll a gynigir i'r gymuned ganddi yn hynod o werthfawr ac mae'n werth picio mewn i weld y lle ar ei newydd wedd.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Ken Evans, a'r teulu, Coedgruffydd, Bontgoch ac yn arbennig i Lowri, Iestyn a Ffion Evans, Fronddel, Llandre ar golled gŵr a thad annwyl, Alun Evans.

Cydymdeimlwn â Mrs Gwen Manley a'r teulu, Woodlands, Tal-y-bont ar farwolaeth Mr Peter Manley yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn ag Eric Roberts, Maes y Deri, Tal-y-bont sydd wedi colli chwaer, Gwenda Edwards, Tyngwddwn, Cwmerfyn yn ddiweddar.

Ymdeoliad

Ymdeoliad hapus i Nia Richards, Rhiwlan, Tal-y bont, yn dilyn 41 mlynedd o wasanaeth i adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru.

Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Tom ac Amy Chase, Tŷ Rhosyn, Bontgoch ar enedigaeth Phoebe Rose, chwaer fach i Alice.

Hwyl Fawr

Dymuniadau gorau i Prys Hughes, Tal-y-bont sydd yn symud i Awstralia i weithio.

Y Mab Darogan

Roedd y Neuadd Fawr yn Aberystwyth yn orlawn ar nos Sadwrn, 22 Hydref wrth i bobl o bob oed heidio yno i weld perfformiad o 'Y Mab Darogan' gan Gwmni Theatr Maldwyn. Llongyfarchiadau i Anwen Howard, Tal-y-bont, Rhian Nemes a Huw Lewis, Tre'r-ddôl ar eu perfformiadau ac am roi chwip o sioe i bawb oedd yno.



Calan Gaeaf

Yn dilyn 2 flynedd o seibiant oherwydd cyfyngiadau Covid roedd hi'n wych i ail-ymweld ag ysbryd hwyliog dathliadau Calan Gaeaf yn Nhal-y-bont unwaith yn rhagor. Mae pwyllgor y Cylch Meithrin wedi bod yn gyfrifol am drefnu'r digwyddiad cymdeithasol yma ers nifer o flynyddoedd erbyn hyn a braf oedd gweld y Neuadd Goffa dan ei sang unwaith eto gyda gwisgoedd gwych a phlant hapus a'u teuluoedd yn mwynhau'r noson. I ddiddanu ar y noson roedd disgo, y gystadleuaeth gwisg ffansi orau, y gystadleuaeth am y bwmpen orau, cyfle i ennill gwobr gyda'r twba lwcus a chafwyd lluniaeth blasus o gŵn poeth neu cawl.

Cododd pwyllgor y Cylch Meithrin dros £700 tuag at gostau'r cylch. Diolch enfawr i bawb a helpodd i drefnu'r parti ac i bawb am gefnogi'r noson.



Cymdeithas Sioe Tal-y-bont Gyrfa Chwist Dofednod

NEUADD GOFFA
TAL-Y-BONT
Nos Fercher 18 Rhagfyr
am 8 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb

Sesiwn Nos Wener

Llew Gwyn Tal-y-bont
25 Tachwedd am 8 o'r gloch
**Twm Morus a
Gwyneth Glyn**
Mynediad £8

Gyrfa Chwist Nadolig y RABI

Yng Nghlwb Bowlio,
Machynlleth
Nos Lun 5 Rhagfyr 2022
am 8pm
Ymynediad £3
Sgor Uchaf £30



26/11/22

NEUADD TALYBONT

14:00

Dewch i fwynhau paned a chacen, rhoi cynnig ar y raffl a gwneud ychydig o siopa Nadolig! Ond yn fwy na dim - dewch i gael clonc!

£2.00 oedolion / plant am ddim



Apêl Wcrain



Gwasanaeth Diolchgarwch



Cronfa DPJ



Ymweliad gan yr heddlu



Dathlu diwrnod T Llew Jones



Arian, enillydd cystadleuaeth Cogurdd



Ymweliad gan PC Ron



Ymarfer sgiliau hoci

Ysgol Tal-y-bont

Ysgol Eco



Rydym wedi bod yn ffodus i gael cwmni'r artist Elin Crowley eto'n ddiweddar. Mae Elin yn gweithio i elusen Maint Cymru sy'n annog pobl Cymru i gymryd camau cadarnhaol syml er mwyn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Maent yn cydweithio gydag ysgolion i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd coedwigoedd wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Cyflwynwyd y wybodaeth mewn ffordd syml a diddorol ac fe wnaeth bawb fwynhau – diolch Elin.

Ysgol y Gymuned Wcrain

Mae Ysgol Tal-y-bont yn falch iawn o fod wedi cefnogi elusen Ukraine Train dros y misoedd diwethaf. I ddechrau bu aelodau'r Cyngor Ysgol yn casglu dillad oedd o gwmpas yr ysgol a'u gwerthu i deuluoedd yr ysgol am bris rhesymol. Gyda hynny a'r rhoddion o'r Ffair Busnesau Bychain, trosglwyddwyd sic o £130 i Jenny sy'n un o wirfoddolwyr prysur yr elusen yn lleol. Roedd hi'n hyfryd i groesawu Jenny i'r gwasanaeth i sôn am ei gwaith gyda'r elusen ac fe wnaeth ei sgwrs argraff fawr ar y plant a'r staff. Yn ddiweddarach yn y mis daeth Jenny nol atom i gasglu bocsys esgidiau'n llawn anrhegion i blant Wcrain – diolch i chi gyd am eich cefnogaeth a phob hwyl i chi Jenny ar eich taith i Wcrain.

Gwasanaeth Diolchgarwch

Roedd hi'n hyfryd cael bod nôl yng Nghapel Bethel am y tro cyntaf ers tair mlynedd i gynnal ein gwasanaeth diolchgarwch. Hoffwn ddiolch yn fawr i swyddogion y capel am y croeso ac i'r Parch Gwilym Tudur am ei anerchiad pwrpasol. Diolch o galon hefyd i Mrs Falyri Jenkins am gyfeilio ac am ein cynorthwyo gyda'r emynau. Roedd hi'n hyfryd i weld y capel mor llawn i weld y plant yn cyflwyno eu heitemau. Codwyd dros £200 i Ukraine Train hefyd. Gwych!

Cronfa DPJ

Mae rhai misoedd wedi mynd bellach ers i ni gael diwrnod codi arian i elusen DPJ. Ar y diwrnod hwnnw fe gafwyd llawer o hwyl wrth i'r plant wisgo fel ffermwyr ac anifeiliaid er mwyn codi arian i'r elusen yma sy'n gweithio gyda phobl o'r byd amaethyddol sy'n dioddef o iselder. Diolch yn fawr i Eifiona am ddod atom i esbonio ei gwaith gyda'r mudiad ac roedd hi'n braf gallu trosglwyddo y sic iddi o'r diwedd.

Heddlu

Cafwyd sawl ymweliad gan yr Heddlu yn ystod y mis – ond peidiwch â phoeni, dod yma i roi cymorth a chynghor i ni oedden nhw! Yn gyntaf daeth Pc Kate atom i rybuddio'r plant am beryglon sy'n gysylltiedig â Chalan Gaeaf ac yn enwedig tân gwyllt. Roedd hi'n amlwg o atebion y plant eu bod yn wybodus iawn am hyn ac yn barod i ddathlu'r achlysuron yn ddiogel.

Yn hwyrach yn mis daeth Pc Kate nôl atom gyda Pc Sarah, Ron o'r Adran Ddiogelwch y Ffyrdd a Kayleigh o Gyngor Sir Ceredigion i

drafod pwysigrwydd peidio â gor-yrru. Ond uchafbwynt yr ymweliad heb os, oedd cael ymweld â fan Ron a chael mesur cyflymder cerbydau. Mae'r ysgol wedi bod yn rhan amlwg o'r ymgyrch gymunedol i wasgu ar yr awdurdodau i weithredu er mwyn arafu trafnidiaeth drwy'r pentref ac roedd y prynhawn yma'n bwysig o ran atgoffa'r cyhoedd i gadw at terfynau cyflymder.

Ar ddiwedd y mis cafwyd ymweliad dros TEAMS gyda Pc Hannah i drafod pwysigrwydd cadw'n ddiogel ar-lein. Yn ystod y sgwrs pwysleiswyd ei bod hi'n anghyfreithlon mewn rhai achosion i blant dan oedran arbennig i gael mynediad at y cyfryngau cymdeithasol megis Facebook a Twitter. Roedd hi'n braf iawn gall croesawu plant o Ysgol Craig yr Wylfa draw atom fel rhan o brosiect Pont yr Wylfa – gobeithio eich bod wedi mwynhau gwneud ffrindiau newydd.

Diwali

Yn ystod mis Hydref roedd Hindŵiaid y byd yn dathlu eu blwyddyn newydd gyda Gŵyl Diwali. Dyma ŵyl sy'n cyflwyno negeseuon gobeithiol am oleuni a daioni. Roedd yn gyfle da i gyflwyno credoau crefyddau eraill gan ddylunio patrymau rangoli diddorol ran ddefnyddio deunydd amrywiol fel reis lliwgar.

Siarter Iaith Diwrnod T Llew Jones

Mae dathlu Diwrnod T. Llew Jones wastad yn esgor ar syniadau difyr a chyffrous. Eleni bu'r plant yn creu gwaith yn seiliedig ar y gerdd Dawns y Dail gan gynnwys creu animeiddiadau diddorol ar yr iard yn nosbarth 4 a 5, tra bu dosbarth 2 a 3 yn gwella eu medrau mesur cyn peintio a chreu animeiddiad a chreu torch o ddail.

Cogurdd

Mae cystadleuaeth Cogurdd yn mynd o nerth i nerth. Eleni fe wnaeth mwy o blant gystadlu nag erioed o'r blaen ac roedd y brechdanau'n edrych yn flacus iawn. Diolch yn fawr i Mrs Jones a Mrs James y gegin am feirniadu ac roedden nhw wrth eu boddau gyda'r creadigrwydd. Da iawn i Ariana am ennill ac am gynrychioli'r ysgol yn rownd terfynol Ceredigion – tipyn o gamp yn wir.

Hoci

Diolch yn fawr i Rhiannon o Urdd Ceredigion am ddod atom i ddysgu sgiliau hoci newydd i blant hŷn yr ysgol. Roedd pawb wedi mwynhau'r cyfle i gyd-chwarae wrth baratoi ar gyfer y gemau sydd i ddod.

Criw Cymraeg

Roedd y Criw Cymraeg wrth eu boddau gyda'u crysau-t newydd. Diolch o galon i Menna o Gwmni Ceirios am y cymorth gyda dylunio'r logo ac am y nawdd hael i ni.

Ysgol Iach

Mae gan bawb iechyd meddwl ac mae'r ysgol wedi bod yn hyrwyddo lles pawb yn gyson dros y blynnyddoedd diwethaf. A dydy hi byth yn rhy gynnar i ddechrau dysgu sut i ofalu amdanom ni'n hunain. Cafodd plant y dosbarth derbyn a blwyddyn 1 ddiwrnod prysur o arddio, tyllino a sgwrsio dros baned o de er mwyn pwysleisio manteision ymlacio a thrafod!

Yn dilyn pennawd rhifyn diwethaf Papur Pawb fe wnaeth plant hŷn yr ysgol drafod faint o gyn-ddisgyblion yr ysgol sydd wedi cynrychioli Cymru mewn unrhyw faes. Tybed os allwch chi ein helpu i gael rhestr cyflawn? Diolch yn fawr.



Yr Urdd yn Gant Oed Aelwydydd cynnar

Roedd Aelwydydd yr Urdd llewyrchus wedi'u ffurfio yn Nhaliesin a Thal-y-bont yn ystod yr 1940au ac mae cofnodion am eu gweithgareddau wedi goroesi ac i'w gweld yn Archifau'r Urdd yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Sefydlwyd Aelwyd Tal-y-bont yn 1941 gyda tua 30 aelod o'r oedran 14 i 20 oed. Y cadeirydd oedd y Parch. Fred Jones, gyda Herbert Morgan Evans, Rhydfach, yn drysorydd (ac wedi hynny J R Jones, Werndeg) a Letitia Davies, Brynteg, yn ysgrifennydd. Erbyn 1944 yr arweinydd oedd D Alwyn Morris, Glenydd.

Roedd yr Aelwyd yn cwrdd yn festri Bethel ac wedi hynny yn y Neuadd Goffa. Talai'r aelodau £1 y flwyddyn ond doedd hynny ddim yn ddigon i gynnal yr holl weithgareddau a'r gost o logi'r Neuadd, felly gwnaed cais am grant i'r Cyngor Sir.

Roedd rhaglen 1944-45 yn cynnwys darlithoedd ac anerchiadau, trafodaethau ar bynciau'r dydd, nosweithiau llawen, ffug-eisteddfod, chwaraeon ac yn y blaen. Trefnwyd teithiau cerdded i Fedd Taliesin a mannau diddorol eraill.

Yn 1943 y ffurfiwyd Aelwyd Taliesin gyda 23 aelod a dalai dwy geiniog yr wythnos. Y cadeirydd oedd y Parch. Enoch T Davies, Wesley Villa, gydag Elwedd Jenkins, Neuadd yr Ynys yn drysorydd ac Ann Evans (Watkin wedi hynny), Brynawel, yn ysgrifennydd. Perfformiwyd drama 'Pris y Glo' gan yr aelodau a threfnwyd cystadlaethau chwaraeon.

GJ



Llew, Moi a Now, neiaint Brian Jones, Penlon, Tal-y-bont yn dathlu pen-blwydd Mr Urdd ar y fainc deithiol arbennig

OUT OF OFFICE STUDIO

ADEILADAU NEWYDD | ESTYNIADAU | TRAWSNEWIDAU | DATBLYGU TIR
CYFEIRIAD
Out Of Office Studio LLP
4 Cambrian Terrace
SY20 8TR

FFON
+ 44 7984399315

AR-LEIN
office@o-o-studio.com
www.outofficestudio.co.uk



arb
Architects
Registration
Board

Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth



Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod yn festri capel Rehoboth ar brynhawn Mawrth, 11 Hydref, gan Eiriona Metcalfe. Eryl Evans a Diana Jones oedd y siaradwyr gwadd am y prynhawn. Mae'r ddwy yn byw yn Llandre erbyn hyn, y ddwy wedi bod yn athrawon, a bu Diana yn brifathrawes yn Ysgol Gynradd Tal-y-bont. Mae'r ddwy ohonynt yn hoff iawn o waith llaw ac yn mynychu dosbarth yn Llandre, a hefyd maent yn aelodau o Gymdeithas Brodwaith Cymru. 'Arddangosfa gwaith llaw' oedd testun eu sgwrs, a daeth y ddwy â phob math o eitemau hyfryd i'w dangos i ni a'r cyfan wedi eu gwneud ganddynt â llaw. Roedd y ddwy wedi dechrau gwnïo tra yn yr ysgol gynradd ac roedd yr eitemau hynny yn dal ganddynt. Tra'n mynychu gwahanol ddosbarthiadau ar hyd y blynyddoedd, maent wedi cynhyrchu nifer fawr o eitemau mewn gwahanol gyfryngau, gan gynnwys cwiltiau lliwgar, clustogau, bagiau o bob math, lluniau, teganau meddal, a llawer, llawer mwy. Roedd pawb wedi rhyfeddu wrth weld yr holl waith cywrain oedd ar y bwrdd o'n blaen, a'r cyfan yn werth ei weld. Diolchwyd yn gynnes i Eryl a Diana am brynhawn hyfryd, ac yna mwynhawyd y te a baratowyd gan Myfanwy Rowlands ac Ann Humphreys.

Merched y Wawr Cangen Tal-y-bont a'r Cylch

Cyfarfod Mis Hydref oedd y mis cyntaf i ni gwrdd yn y neuadd ers cyn yr haf gan i ni ymuno â Changen Aberystwyth yn Theatr yr Arad Goch ym mis Medi. Diolchwyd i nifer o aelodau a oedd wedi darparu lluniaeth ysgafn ar wahanol achlysuron yn ystod y mis. Darllenwyd y fantolen a diolchwyd i Eirian am ei gwaith trylwyr dros gyfnod o wyth mlynedd. Diolchwyd i Mair hithau am ei pharodrwydd i ymgymryd â'r gwaith yn y dyfodol. Trefnwyr y mis oedd Diana ac Eryl.

Pleser oedd croesawu Llinos Dafis atom nos Lun, 17 Hydref. Merch o'r ardal ydi Llinos, wedi'i magu yn Bow Street, ac wedi blynyddoedd yn byw yn Nhalgarreg, dod yn ôl i Landre wedi ymddeol. Testun ei sgwrs heno oedd 'Geiriau'. Mae ganddi ddiddordeb arbennig mewn geiriau ac yn hoff o ddyfynnu talpiau o farddoniaeth sydd ganddi ar ei chof. Ond troi at hen benillion a diarhebion wnaeth hi heno. Maent yn cyfleu cymaint o wirionedd mewn ychydig eiriau, ac onid gwir "Gorau prinder, prinder geiriau". Gellir darllen sawl ystyr a gwirionedd i bob dihareb ac maent yn cyfoethogi ein hiaith. Gofid yw eu bod yn mynd ar goll ac yn mynd yn anghof. Neges Llinos heno oedd ein hannog i'w defnyddio a'u trosglwyddo i'r plant fel eu bod yn goroesi. Beth am gael dihareb y mis yn ein Papurau Bro? Cawsom restr o ddiharebion i bori drostynt, rhai ohonynt yn gyfarwydd ond eraill yn fwy anghyffredin. Noson ddifyr iawn.

Sam Ebenezer yn Serennu

Bu un neu ddau o ddarllenwyr Papur Pawb yn lwcus i weld Sam Ebenezer yn actio yn Y Mousetrap yn ddiweddar. Nawr mae e'n rhan o gast y sioe gerdd 'The Choir of Man' yn Leicester Square, Llundain. Dyma gyfle i glywed Sam yn sôn am ei yrfa.

Pryd wnes di sylweddoli dy fod am ddilyn gyrfa yn y byd perfformio?

Sylweddolais fy mod eisiau perfformio o oedran ifanc iawn a dydw i ddim meddwl bod unrhyw amheuaeth erioed yn fy meddwl na fyddwn i'n gweithio i mewn y diwydiant cerddoriaeth, neu theatr. Dydw i ddim yn meddwl y gallwch chi byth guro'r wefr o fod ar y llwyfan. Mae'r wefr sy'n dod o fod o flaen cynulleidfya yn ddiguro.

Sut dechreuodd y cyfan?

Des i mewn i theatr trwy ganu a'r Eisteddfod, o corau i chwarae offerynnau. Yna yn 10 mlwydd oed, y llwyfannodd Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth 'Oliver', cynhyrchiad gydag actorion wedi'u hyfforddi'n broffesiynol yn ogystal â phlant lleol fel gang Fagin. Roeddwn yn ddigon ffodus i gael fy nghastio fel Oliver. Hwn oedd fy mhrofiad go iawn cyntaf o theatr ac o'r eiliad honno dwi byth yn amau fy mod eisiau gyrfa mewn actio.

Ffaith ddifys yw fod Taron Egerton (efallai orau adnabyddus heddiw am chwarae Elton John yn y ffilm boblogaidd Rocketman) oedd cast gyda mi fel The Artful Dodger!

Trwy gyd-ddigwyddiad, tra roeddwn yn The Mousetrap yn St. Martin's Theatre roedd Taron yn ymddangos mewn drama drws nesaf ygnhyd â Gwyneth Keyworth, hefyd o Aber, yn ymddangos yn To Kill a Mockingbird - tri actor, o gwmni theatr lleol bach yn Aberystwyth, ymddangos yn sioeau West End ar yr un pryd - mor anhygoel a hyfryd i weld. Dwi ddim yn siŵr ei fod erioed wedi digwydd o'r blaen.



Beth oedd dy rôl gyntaf fel oedolyn?

Ar ôl ysgol ddrama, fy swydd broffesiynol gyntaf oedd hysbyseb ar gyfer GiffGaff, y brand ffôn. Treuliais y diwrnod yn eistedd mewn canŵ y tu mewn a ball-pit, a oedd yn ffordd braidd yn rhyfedd i ennill fy nghyflog cyntaf yn y theatr! Fy rôl gyntaf ar y llwyfan oedd pantomeim ym Mae Whitley, rhan hyfryd o'r byd. Dw i wedi perfformio ym Mae Whitley ddwywaith a Sunderland yn ystod pedair blynedd gyntaf fy ngyrfa. Mae'r bobl yn wych gyda chynhesrwydd a chroeso tebyg i'r Cymry.

Mae panto yn rhan mor bwysig o hanes y theatr ac yn hollbwysig o ran cadw theatrau llai ar agor drwy gydol y flwyddyn. Yn ddiwyllianol, mae yna blant a theuluoedd sydd ond yn mynd i'r theatr unwaith y flwyddyn i'r panto. Efallai mai dyna'r sbardun i blentyn feddwl am yrfa mewn theatr - boed fel dawnsiwr, canwr, cyfarwyddwr, dylunydd gwisgoedd neu rywbeth arall, Mae pob rôl yn ein diwydiant yn bwysig. Felly tra bod fy nghalon i mewn theatr gerdd, ni fyddaf byth yn gwrthod rôl mewn panto oherwydd fy mod gwybod pa mor bwysig yw hi i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf.

Pa mor bwysig i dy yrfa oedd cael dy gastio fel Ditectif Sarjant Trotter yn The Mousetrap?

Roedd fy ymddangosiad cyntaf yn y West End yn bwysig iawn i mi. Roedd yn bendant y cam mwyaf yn fy ngyrfa hyd yn hyn. Mae gan Mousetrap gymaint o hanes a chymaint o bobl ar hyd a lled y wlad yn gwybod amdano.



Beth sydd wedi bod yn dy gadw yn brysur yn ddiweddar?

Roeddwn yn rhan o sioe o'r enw 'Lloergan' yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Ngheredigion gyda Lynwen Roberts a Miriam Llwyd, dwy actores a chysylltiadau ag ardal Papur Pawb.

Yna ym mis Medi, dechreuais ymarferion ar gyfer sioe 'The Choir of Man' yn Llundain. Mae hon yn sioe welais yn ôl yn 2018 ac wedi bod eisiau ymwneud â hi byth ers hynny. Felly dwi ar ben fy nigon i gael y cyfle i fod yn rhan o'r cynhyrchiad.

Rydw i wedi cael cynnig y rhan o "swing" sydd yn golygu fy mod i'n cael chwarae pedwar rhan gwahanol yn y sioe. Ar unrhyw foment - hanner ffordd trwy a sioe neu gydag wythnos o rybudd - gellid dweud wrthyf, "Sam rwyf ti ymlaen" - ac mae'n rhaid i mi gamu i mewn ar gyfer un ohonynt. Dwi wir yn mwynhau'r her. Mae'n rhaid i chi fod yn barod heb gwybod pryd y daw'r cyfle.

Sut all y darllenwyr fod yn siŵr o'ch gweld chi os byddant yn archebu tocyn felly?

Byddaf yn perfformio am 9 mis - a pheidiwch â phoeni byddaf yn rhoi'r wybodaeth ar fy holl gyfryngau cymdeithasol!

Felly, pe gallet ddewis un rôl fawr i'w chwarae, beth fyddai honno?

Yr ateb gonest yw does gen i ddim rôl delfrydol! Mae'n ddigon anodd i ddod o hyd i unrhyw swydd yn y busnes yma, felly i mi mae'n wych i gael weithio cymaint ag y gallaf. Wrth gwrs, byddwn i wrth fy modd yn gwneud rhai o sioeau cerdd mwy adnabyddus y West End, neu i gael rôl mewn sioe newydd. Ond allai i ddim dweud fy mod ar dân eisiau chwarae'r rôl hon neu'r rôl honno.

Fi jyst eisiau gweithio, ac rwy'n hapus i chwarae'r holl rolau sy'n dod ymlaen.

Dymuniadau gorau iddo gyda'r 'The Choir of Man' a phob llwyddiant!

Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN

Angorfa, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
(01239) 615085. Mobile (0421) 786292

Grant Mayhew Ltd
GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk



Calan Gaeaf

Roedd ysbryd hwyliog iawn yn llenwi'r lle ar ddiwedd Hydref wrth i griw o wrachod ac ysbrydion ymgynnull yn Cletwr ar noson Calan Gaeaf i ddathlu mewn steil. Yn ogystal â'r cyfle i wisgo fyny roedd yna siawns i ennill gwobr trwy ddyfalu pwysau'r bwmpen enfawr oedd yng nghyntedd y siop. Roedd y bwystfil yn pwyso dros 36Kg!

Gweithdai Gwneud Llusernau

Diolch i griw o wirfoddolwyr caredig cafwyd cyfle i gyfrannu i orymdaith llusernau poblogaidd a gynhelir yn flynyddol ym Machynlleth. Penderfynwyd dilyn y thema 'Anifeiliaid' a chrewyd llusern grŵp siap gwas y neidr enfawr allan o wiaid a phapur tusw mewn cyfres o weithdai arbennig ar gyfer yr orymdaith fawreddog a gynhaliwyd ar nos Sadwrn, Tachwedd 5ed.



Criw Cerdded

Mae criw Cletwr yn chwilio am wirfoddolwyr i arwain teithiau cerdded yn yr ardal. Mae'r fenter yn rhan o'r cynllun 'Cerdded er Budd Lles'. Y bwriad yw i gwrdd gyntaf ym mis Tachwedd er mwyn derbyn hyfforddiant gyda'r bwriad yn y pendraw i gynnig rhaglen reolaidd o deithiau cerdded lleol drwy'r flwyddyn. Bydd unrhywun sydd â diddordeb mewn ffurfio neu fod yn rhan o'r grŵp cerdded yn gallu derbyn hyfforddiant am ddim felly cysylltwch â events@cletwr.com am fwy o wybodaeth.

Cletwr



Dal Ati!

Mae croeso cynnes i ddarllenwyr Papur Pawb i fynychu Dal Ati, y grŵp sgwrsio Cymraeg i siaradwyr newydd sy'n addas i bob lefel. Cynhelir y sesiynau ar ddydd Sadwrn cyntaf a trydydd y mis (19/11, 3/12, 17/12). Cofwch ddweud wrth eich ffrindiau am y cyfle gwych yma!

Cyngor ar Ynni

Cofwch alw heibio rhwng 10 a 3 ar ddydd Gwener Tachwedd 25ain os am gyngor ar sut i ddelio gyda chostau ynni. Bydd cynrychiolwyr o Cyngor ar Bopeth Ceredigion yno i drafod pynciau fel gwariant, cynlluniau cymorth, disgownt a sawl elfen arall yn ymwneud â sut i ymdopi gyda'r argyfwng ynni.

Celf Cletwr

Mae Celf Cletwr yn chwilio am waith tecstil i'w arddangos ar wal uchel yn ardal caffi yr adeilad. Os hoffech gyfrannu rywbeth, anfonwch hyd at chwe delwedd ddigidol atom i exhibitions@cletwr.com neu cysylltwch am fwy o wybodaeth. Mae arddangosfa o waith yr artist fotanegol Juliet Regan, 'Fy Nhaith Celf' i'w weld yn y caffi ar hyn o bryd. Beth am alw acw i weld y gwaith hyfryd a chael paned yr un pryd?

Fel y gwelwch, mae Cletwr yn llawn bwrlwm o weithgarwch. Cofwch alw acw neu beth am wirfoddoli i fod yn rhan o'r hwy!



Ffair Grefftau Nadolig

ANRHEGION, CYNNYRCH LLEOL, HAMPERI,
GWIN CYNNES
CASTANAU A CHERDDORIAETH

Dydd Gwener 2 Rhagfyr

15.00 - 19.00

www.cletwr.com

01970 832 113 ✉ cletwr@cletwr.com

Cletwr

Yn Naturiol



Cwmni cymdogion

Y 3ydd yn y gyfres hon, mae Alun Elidyr, Simdde Wen, Tal-y-bont a Fferm Caecoch, Rhydymain yn adrodd am ei gynefin.

Pan ddechreuais i ffarmio ym 1997 ar ôl colli'n nhad, roedd yn gymaint ag y gallwn i wneud i gadw trefn ar 600 o ddefaid a 18 o wartheg ar 700 o erwau, a dyna oedd hanes y rhan fwyaf o nghymdogion, ac roedd cydweithio i hel defaid, cneifio a chynhaefu'n ganolog i'n cymuned ac mae hynny'n parhau.

Erbyn heddiw, mae ffermydd cwm ucha Rhydymain yn frith o gynlluniau ynni dwr a siediau gwartheg gyda phaneli solar, ond cyfranddalwyr y Grid Cenedlaethol sy'n pocedu'r rhan fwyaf o'r elw.

Mae gan bron bob ffarm fenter arallgyfeirio ym maes ymwelwyr, yn fythynnod, barciau carafanau, neu wely a brecwast. Mae'r agwedd negyddol at gerddwyr wedi newid i un o groesawu cwsmeriaid a noddwyr.

Mae llwybr Mari Jones yn croesi'r buarth acw'n Caecoch, ac wrth i mi a'r cwn drafod gyda'r amrywiol gerddwyr ddaw heibio'n gyson, dwi'n manteisio ar y cyfle i ddiolch iddynt fel trethdalwyr Ewropeaidd (hyd at Brexit!) am gyfrannu at ailgodi'r waliau cerrig sychion a sefydlu'r 26,000 o goed cynhenid dwi wedi' plannu ers 2003 i greu gwrychoedd. Mae nhw wastad yn werthfawrogol o brydferthwch cefn gwlad, ac yn falch o'i buddsoddiad!

Ond weithiau, dwi'n cael fy herio'n annisgwyl. Dros yr haf, daeth Carwyn Graves, yr awdur bwyd Cymreig o lyfrau fel 'Welsh Food Stories' a'i gyfrol am afalau Cymreig, acw'n holi am y traddodiad o ddefnyddio ffridd yn y dull hafod a hendre o ffarmio yn yr ucheldir, ac mi ddanghosais iddo lechwedd rhedynog ble ro'n i wedi plannu 300 o goed derw fel rhan o gynllun Tir Gofal, ac atal unrhyw boriant. "Wel" medda fynta, "coed bedw wela i'n bennaf, ble mae'r deri?" "Aha", atebais innau, "mae'r bedw wedi hadu'n naturiol ac yn eu mygu, ac mi dalodd Parc Eryri imi dorri cyfran o'r bedw eleni i greu llannerchyd a rhoi golau i'r deri gan eu bod nhw'n arafach yn tyfu, ar yr amod mod i'n gadael y boncyffion yn y fan a'r lle fel "beetle banks". Roedd yn gegrwth! Dau fuddsoddiad o egni ac arian cyhoeddus, un yn dadwneud y llall. Tase'r lle wedi cael llonydd, coed cynhenid fasa yno'n naturiol ta beth mae'n amlwg!

Ar ôl cysidro am dipyn, a gorchfygu f'embarras, fy ymateb oedd fod yma gadwyn gymdeithasol ac economaidd gymhleth ar waith yn cynnal teuluoedd ffyniannus ym mro ei mebyd, o'r bridwr coed i'r gwnethurwr rhaw blannu, a'r llif gadwyn, a'i thanwydd.... ac yntau'n mynd i fwydo'i deulu a thalu morgais wrth gofnodi'r hanes, a dyna'r neges fan hyn, ein bod ni'n rhan o rywbeth mwy ac mai drwy gydweithio a chefnogi y daw llwyddiant. Hynny, ac yn f'achos i, parhau i fod yn barod i ddysgu ac i newid.



Colofn Elin



Rhwng yr ansicrwydd mawr sydd yn San Steffan o hyd, mi rydym i gyd yn poeni am yr economi a chyllid ein cartrefi. Mae peth cysur i'w gael yn y ffaith fod Ben Lake AS wedi galw ar y Canghellor newydd i ddarparu mwy o gefnogaeth i'r rheini sy'n defnyddio tanwydd oddi ar y grid, gan taw cynnig o £100 i gymorth i bob tŷ yn unig sydd wedi ei wneud hyd yma. Ond rydyn ni'n gwybod nad yw hyn yn ddigonol. Mae Plaid Cymru hefyd yn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru drwy alw am sicrhau taw rheini sy'n ennill y fwyaf o gyflog yng Nghymru ddylai dalu'r trethi uchaf.

Os fyddwch chi'n ei chael yn anodd i dalu eich biliau, cofiwch fod peth cefnogaeth ar gael gan Lywodraeth Cymru, ac mae dipyn o wybodaeth i'w gael ar wefannau'r Llywodraeth, a'r Cyngor Sir. Cofiwch hefyd fod cyngor am sut i ddelio gyda dyled a'r cymorth sydd ar gael drwy wasanaeth Cyngor ar Bopeth drwy ffonio 01239 622020.

Hefyd mis yma bu i mi, Ben ac aelodau o bwyllgor Trawslink Cymru gwrdd gyda Lee Waters AS, Gweinidog Llywodraeth Cymru â chyfrifoldeb dros drafnidiaeth, i drafod y posibilrwydd o ailagor y rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin. Er i'r Gweinidog gytuno fod y bwriad yno yn y tymor hir, roeddwn yn siomedig i glywed nad oes arian digonol ar rheifyrdd wedi ei ddatganoli i Gymru i'w galluogi i flaenoriaethu'r brosiect.

Rwy'n parhau i dderbyn nifer o ymholiadau a chwynion am wasanaethau bws y sir. Mae recriwtio dal i fod yn broblem fawr dros nifer o sectorau, ac yn yr un modd mae cyflogi gyrrwyr yn broblem i'r cwmnïau bysus. Rwy'n parhau i fonitro'r sefyllfa ac i roi pwysau ar yr awdurdodau i sicrhau fod Ceredigion yn gallu cael y gwasanaethau rydym eu hangen, gynted fydd hyn yn bosib. Dwi'n gobeithio cwrdd gyda'r Gweinidog i gael diweddariad ar y sefyllfa yn yr wythnosau nesaf.

Cefais y fraint y mis yma o fod yn rhan o agoriad Canolfan Addysg Iechyd newydd Prifysgol Aberystwyth. Dechreuodd y garfan gyntaf o fyfyrwyr nyrsio ar eu hastudiaethau yn y Ganolfan ym Mhrifysgol Aberystwyth ddechrau mis Medi, a'r gobaith yw bydd hyn yn helpu adnoddau nyrsio Bronglais i dyfu hefyd.

Hoffwn longyfarch Ann Bowen Morgan ar gael ei hethol fel Cyngorydd Sir Plaid Cymru newydd Llanbedr Pont Steffan. Cynhaliwyd etholiad trefnus a chwrtais, a diolch i'r ymgeiswyr am eu hymdrechion. Pob dymuniad da i ti Ann.

Diolch hefyd i'r gweithwyr iechyd am eu holl ymdrechion i ddarparu'r frechiad fflw a Covid, a bydden i'n annog pawb sy'n gymwys i sicrhau eich bod yn cael eich brechiad chithau gynted â phosib. Cadwch yn ddiogel.



NICEIC
APPROVED
CONTRACTOR

Alun Davies
Contractiwr Trydanol

M 07703 169813

Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
E alun.davies142@btinternet.com

Dod i Nabod... Jyoti Upadyay

Mae rhai ohonom, o oedran arbennig, yn cofio adeg yr 'hippy trail', caffans, 'flower power' ac 'Affgan Hounds' a'r cannoedd yn teithio tua Nepal, ond Katmandu y brifddinas yn benodol, mewn hen fsys, hen faniau ac ar droed. Mae stori DOD i NABOD yn dechrau mor hir yn ôl a hynny ond mae cysylltiad agos gyda'r mannau hynny yn hanes Jyoti gan iddi fod yn byw yn Nepal am gyfnod yn ddiweddar. Ei chartref newydd yw Brynhyfryd, Tal-y-bont un o'r ddau dŷ lle gellir gweld, heb dalu, cae'r sioe o'r ystafell wely.

Dechrau yn yr 70'au mae stori Jyoti hefyd. Roedd gofyn mawr am ddoctoriaid bryd hynny, fel mae heddiw, a daeth nifer fawr o dde Asia gan gynnwys dau gefnder o'r India, Hari a Mahendra. Ymsefydlodd y ddau yn ne Cymru, cylch Castell Nedd a Gorseinon cyn symud ymlaen, ill dau i Geredigion. Yn ddiweddarach, ymunodd Juno a'i gwr Hari a chael dwy ferch, Dipti a Jyoti, ond pan oedd y merched ond yn saith a phump oed bu farw eu tad. Mae Mahendra yn dal i fyw yn Machynlleth. Bryd hynny bu holi mawr ar i Juno a'i theulu ddychwelyd i Nepal ond yn hytrach gymerodd hi swydd fel doctor ysgolion yn ein sir er mwyn magu ei phlant yn Nghymru, wedi'r cwbl yma ganed y ddwy ferch. Bosib i chi gwrdd a hi rywdro mewn ysgol, falle ysgol Tal-y-bont.

Ar ôl mynychu Ysgol Gymraeg Aberystwyth aeth Dipti, yr hynaf, a Jyoti i Benweddig ac ymlaen i brifysgolion, Jyoti i'r LSE i astudio economeg gyda gwyddoniaeth gwleidyddol. Tra bod Jyoti yma ymgatrefodd Dipti yn Nottingham.

Wedi graddio defnyddiodd Jyoti ei gradd drwy ddatblygu cymunedau yn Uganda a Kenya cyn dod adre i wneud gradd Meistr. Yn 2009 cododd ei phac a symud i Nepal, cymaint oedd y tyndra i fyw yn y wlad lle ganwyd ei mam a ble y bu ar ylliau; iaith y ddwy ferch gyda'u mam yw Nepaleg. Felly am wyth mlynedd bu'n byw yn Katmandu yn gweithio i DIFID gynt (Asiantaeth datblygiad rhyngwladol) eto'n defnyddio ei sgiliau datblygu cymunedau yn benodol ym maes dŵr a chyllid. Roedd, ac mae ganddi o hyd, ddiddordeb mawr mewn Masnach Deg er mwyn defnyddio sgilau arobrin crefftwyr Nepal a'u cefnogi: mae ganddi elusen o'r enw Kaligarh (artisan, crefftau) sydd yn cynhyrchu



gemweithiau. Bu arddangosfa o'u cynnyrch yn Golwg ac ar Heno rywbryd.

Os nad ydych wedi gweld Jyoti yn y cnawd rwy'n siwr i chi ei gweld a'i chlywed ar y cyfryngau yn Ebrill/Mai 2015 pan bu daeargryn dychrynlyd o nerthol yn Nepal. Bu'n byw drwyddo yn Katmandu lle dymchwelodd gymaint a adeiladau'r ddinas. Drwy'r wlad lladdwyd tua naw mil ac anafwyd rhyw ddwy fil ar hugain ond tu allan i'r ddinas roedd y difrod mwyaf oherwydd natur a gwneuthuriad y tai ansefydlog, concrit gwael a mwd oedd y mwyafrif. Cafodd Jyoti sylw arbennig ar S4C, BBC a ITV bryd hynny gan taw hi oedd yr unig yn y wlad a allai siarad Cymraeg! Bu hi a'i gŵr Rabi yn dyst i'r difrod wrth iddynt fynd ar eu gwyliau yn ddiweddarach ar deithiau cerdded yn ardaloedd Annapurno ac Everest. Dywed Jyoti, os oes gennych ddiddordeb, taw amser yma o'r flwyddyn yw'r adeg orau i fynd i Nepal gan fod y nos yn eithriadol oer ond y dyddiau yn heulog hyfryd.

Ers dychwelyd i Gymru yn 2017 ganwyd mab Kian* Hari i Rabi a Jyoti, bydd yn dechrau yn ysgol y pentre yn y flwyddyn newydd pan fydd yn ddwy. Y Nepaleg yw ei iaith gyda'i famgu, ei dad a'i fam ac felly bydd gallu cyfathrebu yn bwysig iawn iddo yn y dyfodol pan fyddant yn ymweld a'r tylwyth yn Nepal rywbryd yn y dyfodol.

Tra bod Rabi yn ysgrifennu ffuglen a ffaith ac yn adolygydd i gwmni GeoSmartDecisions, gynt o Fachynlleth, gweithia Jyoti o'i swyddfa ar ystad IBERS. Chwilio i effaith yr hinsawdd ar gynefin adar yn yr Iwerddon ac yng Nghymru yw ei gwaith ymchwil.

Er i Jyoti adael Cymru flynyddoedd lawer yn ôl mae ei Chymraeg mor raenus ag erioed er iddi gyfaddef bod safon ei Chymraeg, roedd heb ei ddefnyddio er amser maith, a'r radio y theledu yn ystod y daeargryn yn 'rhydlyd'. Bu'r teulu yn byw yn Nhal-y-bont ers blwyddyn a hanner ac felly pan welwch nhw yn cerdded o gwmpas y pentref a'r cylch cofiwch, Cymraeg yw ei hiaith hi ac mae hi wrth ei bodd yn ei defnyddio.

Croeso Jyoti i ti a dy deulu i dalgylch Papur Pawb.

*(pam Kian gyda 'K'? Does dim 'C' yn Nepaleg! A Hari er cof am ei dadcu).

O.N. Os am weld cynnyrch elusen Jyoti chwiliwch am www.kaligarh.com

RH



James Memorials

Am
**GOFBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

*Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

STORFA HUNAN FYNEDIAD

UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI

**MONITRO DIOGELWCH
24 AWR**

Storfa Cartref & Busnes

Bocsos a Bubblewrap

Symud gyda **Wales REMOVALS**

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Tel: 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ www.midwalesstorage.co.uk

Llyfr Newydd

Dyma lun o bostmon yr ardal hon sy'n ymddangos mewn llyfr newydd o ffotograffau yn dwyn y teitl *Cymru Ddoe; mewn lliw a llun* gan yr awdur lleol Gwyn Jenkins.

Tynnwyd y llun gwreiddiol mewn du a gwyn tua 1910 gan E O Jones, Tal-y-bont, ac ar gyfer y llyfr fe'i lliwiwyd drwy ddefnyddio meddalwedd

arbennig a sgiliau'r dylunydd Richard Huw Pritchard. Mae dros 120 o ffotograffau lliw yn y llyfr gan gynnwys rhai eraill o ddiddordeb arbennig i ddarllenwyr *Papur Pawb*.

Y postmon yn y llun yw Owen Humphreys a gludai'r post yn ei gert ddwy olwyn o orsaf Glandyfi i Dal-y-bont. Lladdwyd rhagflaenydd Owen Humphreys, John Andrews, ym Medi 1902, pan darodd ei gert yn erbyn cert arall ger Tre'r-ddôl a thafliwyd y postmon i'r ffordd. Mae'r swyddfa'r post yn y llun wedi hen ddiplannu ac mae'r wal yn y cefndir bellach yn gartref i furlun enwog Tal-y-bont.

Cyhoeddir *Cymru Ddoe* gan Y Lolfa ar ddiwedd Tachwedd (pris £19.99). Anrheg Nadolig berffaith.



Y Gair Olaf

O'r diwedd - mae gwres yr haf, pan welwyd adfeilion ffermydd a phentrefi a foddwyd er mwyn creu cronfeydd dŵr yn dod i'r golwg, wedi ildio i dymheredd mwy maddeuol yr hydref.

Dyma fy hoff dymor – tymor bŵts a sgarff, blancedi gwlan, gwin coch, a chawl cartre. Heb sôn am harddwch byd natur o'n cwmmpas. Rwy'n ddigon ffodus i allu gweld fy ngardd o ffenest fy swyddfa – a dwi wrth fy modd yn sylwi ar y newidiadau tymhorol. Wrth brynu Erwau Glas, dyn ni wedi etifeddu coed afalau a gellyg aeddfed, sydd wedi rhoi pentyrrau o ffrwythau i ni leni. A llawer iawn o ddail, sydd ar lawr erbyn hyn yn aros i gael eu sgubo.

Noson o'r blaen, yn hwyr, o'n i allan gyda'r ci am ei dro bach olaf cyn gwely, ac yn cerdded yn ôl am y tŷ, pan welais rhywbeth yn symud tu ôl i bolyn golau – llygoden fawr, meddyliais, cyn gafael yn dynnach yn nhennyn y ci. Ond wrth agosau, dyma'r creadur yn dechrau rhedeg o 'mlaen, i fyny'r pafin i gyfeiriad y fynwent – draenog oedd o! Dw i heb weld draenog byw ers blynyddoedd – roedd Dad wrth ei fodd os oedd o'n darganfod un yn cysgu yn y tŷ gwydr neu ynghanol pentwr o ddail castan yng ngwaelod yr ardd ers talwm. Ffrind gorau'r garddwr – i'w ddiogelu ar bob cyfri.

Dyma obeithio felly bod yr hen ddraenog wedi dod o hyd i lond ei fol a gwely clyd – mae croeso iddo acw unrhyw bryd!

Sonia Hughes

CFfi Tal-y-bont

Hwyl yr Hydref

Paratoi ar gyfer diwrnod maes Aberteifi oeddem ar ddechrau mis Hydref. Roedd angen cyfarfod er mwyn i bawb wirfoddoli ar gyfer y cystadlaethau di-ri, ac er mwyn gwneud yn siŵr fod pawb yn hapus gyda'r trefniadau. Nesaf, roedd rhaid ymarfer. Cynhaliwyd ymarferion barnu gwartheg biff, ymarfer barnu moch ac ymarfer barnu defaid magu dros y diwrnodau nesaf er mwyn sicrhau fod pawb yn hyderus, ac yn barod at y diwrnod mawr ddydd Sadwrn. Cafodd y clwb lwyddiant mawr. Llongyfarchiadau a diolch mawr i bawb fuodd yn cystadlu. Sara am ddod yn ail yn y stocmon hŷn, Ynyr am ddod yn gyntaf yn y stocmon iau, Alun am ddod yn drydydd yn y cywain, a thrydydd i Mirain, Efa ac Ynyr fel tîm!

Mis llawn gwaith oedd mis Hydref, gan mai paratoi ac ymarfer ar gyfer yr eisteddfod ar ddechrau mis Tachwedd oedd angen ei wneud dros weddill y mis. Yn bennaf, ymarfer ar gyfer y meimio cân. Cynhaliwyd ymarfer bob nos Fawrth a gwnaethom ddilyn thema 'Y Môr'. Diolch yn fawr i Elen am ein hyfforddi, i Jona am y gerddoriaeth, ac i Mair am y Props. Mi roedd yn lot fawr o hwyl. Pob lwc i bawb sy'n cystadlu mis nesaf!



LLAETH LLEOL ORGANIG

ar gael yn y

Cwtsh Llaeth Aberystwyth a Machynlleth

www.llaethjenkinsmilk.co.uk

07813 827 712

@cwtshllaeth



Hefyd ar gael yn siopau lleol.

Jenkins, Cerrigaranau Uchaf, Talybont

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com



Michael Rowlands
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576

HUW LEWIS Glanyrafon	Teiars Aliniad Olwyn Ecsôsts Batris Brêcs Hongiad Bar tynnu Gwasanaeth MOT HUWLEWISTYRES.COM	Rhodfa'r Parc
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor. Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan ALIGNMYCAR.CO.UK Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan. ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000 LLANBED 01570 422221		

Chwaraeon a Hamdden



Crysau Newydd

Drwy garedigrwydd Mark Joseph o'r Jewellery House, Aberystwyth, mae Clwb Pêl-droed Tal-y-bont wedi derbyn cit newydd sbon wrth i'r clwb ail-ymuno â Chyngair Cambrian Tyres Aberystwyth a'r Cylch wedi blwyddyn o seibiant.

Mae'r tîm yn gymysgedd o'r profiadol a sawl bachgen ifanc addawol. Yn ôl Evan Rowlands, sy'n gyfrifol am yr holl drefniadau sy'n gysylltiedig â chynnal y clwb, mae'r tîm wedi cael dechrau anodd i'r tymor. Dywed mai'r nod ar ddechrau'r tymor oedd creu carfan sefydlog er mwyn sicrhau bod o leiaf un-ar-ddeg chwaraewr ar gael bob penwythnos. Mae'r gwaith o hyfforddi a rheoli ar y dydd Sadwrn yn cael ei rannu rhwng Darren Davies, Des Roberts, Wyn Benjamin ac Evan ei hun. Yn ogystal â hyn, mae Bryn Smith a Kevin Roberts yn rhoi help llaw yn ôl yr angen.

Wedi colli mewn dwy gystadleuaeth gwpan yn erbyn Llanboidy ac Aberporth o Adran De Ceredigion ym mis Medi, mae'r canlyniadau wedi gwella yn y Cynghrair ers hynny. Cafwyd buddugoliaeth 1-0 yn erbyn Padarn, gyda Jamie Barron yn sgorio, a sicrhawyd dwy gêm gyfartal yn erbyn Tregaron ac Eilyddion Penparcau. Roedd y canlyniad, 2-2, yn erbyn Penparcau yn arbennig o galonogol gan fod y gwrthwynebwyr yn ddi-guro yn y Cynghrair. Tom Benjamin sgoriodd y ddwy gôl i Dal-y-bont.

Bydd y clwb yn dathlu hanner canmlwyddiant ers ail-sefydlu'r clwb yn 1973. Yn ôl Evan : 'Y bwriad ydy trefnu gêm gyfeillgar rhwng y tîm presennol a thîm o gyn-chwaraewr ac yna cael noson i ddathlu yng nghwmni cynifer â phosibl o gefnogwyr.' Gobeithir trefnu'r gêm ar ddiwedd y tymor hwn a cheir 'hysbys' am yr achlysur mewn da bryd.

Diolch i Evan a'i 'staff' am gynnal fflam y clwb sydd wedi dioddef yn enbyd o golli ei faes chwarae arferol dro yn ôl. Gyda llaw, mae modd cadw golwg ar y sgôr ddiweddaraf a chanlyniadau'r tîm, ar yr app 'Cymru Football'.

Cystadleuaeth Cwpan y Byd

Cyfle i ennill llyfr

Cyhoeddwyd gan

Y Lolfa



Y cyfan sydd angen ei wneud yw hoffi a rhannu ein tudalen Facebook



<https://www.facebook.com/papurpawb/>

Y dyddiad cau yw 18 Tachwedd – Pob Lwc!

Siom i Rhys

Yn y rhifyn diwethaf o *Bapur Pawb* adroddwyd bod disgwyl i Rhys Norrington-Davies fod yn aelod o garfan Cymru ar gyfer cystadleuaeth Cwpan y Byd sydd i'w chynnal yn Qatar ddiwedd Tachwedd a ddechrau Rhagfyr.

Yn anffodus, cafodd Rhys ei anafu mewn gêm gynghrair i'w glwb Sheffield United ac ni fydd yn holliaich i deithio gyda'r garfan. Mae hwn y siom aruthrol i ni yn yr ardal hon, i Robert Page, rheolwr tîm Cymru ond y fwy fyth i Rhys ei hun. Serch hynny, mae Rhys yn parhau yn ddyn ifanc ac fe gaiff gyfle eto yn y blynyddoedd i ddod.

Deallwn ei fod wedi dychwelyd i'r ardal yn ddiweddar tra'n gwella o'i anaf a dymunwn yn dda iddo yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Gwasanaeth argraffu diguro

Holwch Paul
am bris!
paul@yloffa.com
01970 832 304

Y Lolfa
Talybont
Ceredigion
SY24 5HE
www.yloffa.com

Taclo Costau Byw

Er gwybodaeth y mae rhai cynlluniau cenedlaethol a lleol ar gael i helpu pobol i ymdopi â'r cynnydd mewn costau byw.

Yn cynnwys:

- Taliad Tanwydd y Gaeaf - ar gyfer pawb sydd wedi eu geni cyn 25 Medi 1956
Gallwch fod yn gymwys i dderbyn rhwng £250 a £600 a dylsech ei dderbyn cyn Ionawr 13, 2023
- Cynllun Cymorth Biliau Ynni - pawb sydd â bil trydan yn ei (h)enw
Byddwch yn derbyn £400 mewn 6 taliad rhwng Hydref 22 a Mawrth 23
Does dim rhaid i chi wneud dim
- Taliad ychwanegol - i bob cartref sydd ddim ar y grid nwy
Dylsech dderbyn £100 ond does dim manylion pellach ar y funud
- Cynllun Cymorth Tanwydd Cymru – os ydych yn cael unrhyw fath o fudd-dâl
Gallwch dderbyn £200 – am fwy o fanylion ewch i wefan Cyngor Sir Ceredigion a chwilio am **Cynllun Cymorth Tanwydd Cymru**

Os ydych chi eisiau mwy o wybodaeth am fudd-daliadau, help gyda gwisg ysgol, lwfansau gofalwyr a nifer o gynlluniau cymorth eraill ewch i wefan Cyngor Sir Ceredigion a chwiliwch am "costau byw".

www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/costau-byw/